# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Chwefror 2016

Amser: 09.05 - 12.53

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3553

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru<br>Chris Cain, Northpoint Aviation<br>Yr Athro Stuart Cole, Prifysgol De Cymru<br>Andrew Miller, Glasgow Prestwick Airport<br>John Nicholls, Transport Scotland |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru) |

| | |
|---|---|
| | Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF447KB) Gweld fel HTML (426KB).

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies ac Aled Roberts. Nid oedd neb yn dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Maes Awyr Caerdydd: Sesiwn dystiolaeth 3

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i Lywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi maes awyr Caerdydd.

3.2 Cytunodd James Price i anfon y wybodaeth ganlynol at y Pwyllgor:

- Rhestr o'r Cwmnïau Angori yng Nghymru ynghyd â'r meini prawf er mwyn bod yn Gwmni Angor;
- Nodyn yn cynnwys ffigurau teithwyr a nifer yr hediadau dros y 25 mlynedd diwethaf;
- Cynllun a rhestr o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gaffael;
- Eglurhad o'r brys ynghylch pam bod rhaid cwblhau'r pryniant mewn amser byr a pham y defnyddiwyd gweithdrefn S128 yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006;
- Manylion llawn o'r gwahanol brisiadau a wnaed cyn y caffaeliad;
- Cadarnhad ynghylch a gynhaliwyd y gwerth tir gwreiddiol ar y safle fel maes awyr neu Werth Tir Gweddilliol safle'r maes awyr cyn adeg y pryniant;
- A yw'r cyfrifiadau ar y Gwerth Tir Gweddilliol ar gael; a

Nodyn ar ba ddull prisio a ddefnyddiwyd i roi gwerth ar yr asedau yng nghyfrifon blynyddol Holdco.

## 4 Maes Awyr Caerdydd: Sesiwn dystiolaeth 4

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Chris Cain, Cyfarwyddwr a Phennaeth Ymchwil, Northpoint Aviation a'r Athro Stuart Cole CBE, Athro Emeritws Economeg a Pholisi Trafnidiaeth, Prifysgol De Cymru, fel rhan o'r ymchwiliad i Lywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi maes awyr Caerdydd.

## 5 Maes Awyr Caerdydd: Sesiwn dystiolaeth 5

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Nicholls, Cyfarwyddwr, Teithiau Awyrennau a Llongau, Camlesi a Chludo Nwyddau Transport Scotland ac Andrew Miller, Cadeirydd Maes Awyr Glasgow Prestwick fel rhan o'r ymchwiliad i Lywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi maes awyr Caerdydd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Maes Awyr Caerdydd: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.